**GRŴP GORCHWYL A GORFFEN CYD-WEINIDOGOL AR DDULL YSGOL GYFAN O HYBU IECHYD MEDDWL A LLESIANT**
**27 IONAWR 2020**

**Yn bresennol**

| **Enw** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Kirsty Williams, AC (MfE) | Y Gweinidog Addysg |
| Vaughan Gething, AC (MfHSS) | Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Lynne Neagle, AC (LN) | Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg |
| Steve Davis (SD) | Cyfarwyddwr Adran Addysg, Llywodraeth Cymru |
| Chris Jones (CJ) | Cymorth i Ddysgwyr, Llywodraeth Cymru |
| Dr Elizabeth Davies (ED) | Uwch Swyddog Meddygol (Meddygon Teulu), Llywodraeth Cymru |
| Tracey Breheny (TB) | Camddefnyddio Sylweddau ac Iechyd Meddwl, Llywodraeth Cymru |
| Dr Dave Williams (DW) | Cynghorydd Seicoleg Plant Prif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru |
| Jo-Anne Daniels (JD) | Cyfarwyddwr Adran Iechyd Meddwl, y GIG, Llywodraeth Cymru |
| Albert Heaney | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru |
| Dr Heather Payne (HP) | Uwch-swyddog Meddygol (Pediatreg), Llywodraeth Cymru |
| Aled Evans (AE) | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru |
| Dr Liz Gregory (LG) | Gwasanaethau Seicoleg |
| Dr Julie Bishop (JB) | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Yr Athro Sally Holland (SH) | Comisiynydd Plant Cymru |
| Yr Athro Simon Murphy (PSM) | DECIPHer |
| Paula Vaughan (PV) | Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd |
| Charles Janczewski | Cynrychiolydd Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd Iechyd Lleol |
| Y Cyng. Huw David (HD) | CLILC |
| Andrew Jarett (AJ) | Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Debbie Harteveld (DH) | Consortia Addysg Rhanbarthol |
| Steve Davies (SD2) | Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid |
| Mark Campion (MC) | Estyn |
| Jason Pollard (JP) | Llywodraeth Cymru, Ysgrifenyddiaeth |
| Ella Sivan (ES) | Llywodraeth Cymru, Ysgrifenyddiaeth |

**Dirprwyon**

| | |
|---|---|
| Karen Jewell (KJ) | Ar ran yr Athro Jean White, Prif-swyddog Nyrsio |
| Deb Austin (DA) | Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc, ar ran Carol Shillabeer |

**Ymddiheuriadau**

| **Enw** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Chris Parry | Pennaeth, Ysgol Lewis |

**Yn bresennol yn y cyfarfod**

| **Enw** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Charlotte Montgomery | Dull Ysgol Gyfan Gwent |

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Croeso, ymddiheuriadau, cofnodion a chamau gweithredu o gyfarfod 4 Tachwedd 2019** | |
| **1.1** | Croesawodd MfE yr aelodau i bumed cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-weinidogol ar Ddull Ysgol Gyfan o hybu llesiant emosiynol ac iechyd meddwl. Cyflwynwyd Chris Jones hefyd, sy'n cymryd rôl Ruth Conway fel Dirprwy Gyfarwyddwr yr is-adran Cymorth i Ddysgwyr.<br><br>Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol eu trafod a'u cadarnhau. Roedd yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau. | |
| **2** | **Arolwg cenedlaethol CCAC/LIC o ymarfer a darpariaeth bresennol ysgolion mewn perthynas â llesiant emosiynol ac iechyd meddwl – cyflwynwyd gan Aled Evans** | |
| **2.1** | Croesawodd MfHSS Aled Evans, a gyflwynodd ganfyddiadau allweddol o arolwg cenedlaethol ar y cyd rhwng CCAC a LIC o ymarfer a darpariaeth bresennol ysgolion mewn perthynas â llesiant emosiynol ac iechyd meddwl.<br><br>Roedd y cyflwyniad yn trafod yr amrywiaeth eang o ymyriadau cyffredinol ac ymyriadau wedi'u targedu ac adnoddau asesu a ddefnyddir gan ysgolion ledled Cymru. Trafodwyd hefyd nifer o anawsterau a wynebir gan rai ysgolion mewn perthynas â darparu cymorth llesiant emosiynol ac iechyd meddwl, yn amrywio o faterion ariannu neu amserlenni, i gydberthnasau anodd â gwasanaethau arbenigol a'r angen i ysgolion gael eu cefnogi'n ddigonol pan fyddant yn dewis ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.<br><br>Ar ôl y cyflwyniad, nododd LN bwysigrwydd sicrhau bod amrywiaeth o fentrau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gael; tynnodd sylw at y gormodedd presennol o ran mentrau, sy'n rhoi darlun dryslyd i ysgolion; a gofynnodd pa ganran o'r ymatebion a ddaeth o ysgolion uwchradd yn benodol. Gwnaeth SH hefyd groesawu'r adroddiad, sy'n cydweddu â'i phrofiad o ryngweithio ag ysgolion, gan nodi pwysigrwydd cael pecyn cymorth sy'n cyd-fynd â chanllawiau fframwaith y Dull Ysgol Gyfan, er mwyn helpu ysgolion i ddewis yr ymyriadau sy'n addas ar eu cyfer nhw.<br><br>Roedd JB ac HP yn gweld y rhestr hir o adnoddau asesu yn fater pryder, am ei bod yn bosibl y gellid defnyddio'r adnoddau yn bennaf i 'labelu' myfyrwyr, a allai wneud mwy o ddrwg nag o les. Awgrymodd HP y gallai'r Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol fod o ddefnydd o ran helpu ysgolion i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau asesu. Nododd SM y gallai ysgolion ddefnyddio dangosyddion y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion ar gyfer iselder a gorbryder yn eu hysgolion fel cyd-destun pwysig. Hefyd, nododd ei bod yn hollbwysig sicrhau bod myfyrwyr yn cymryd rhan weithredol yn y broses Dull Ysgol Gyfan ac yn cymryd perchnogaeth dros y camau y mae eu hysgolion yn eu cymryd. Yn olaf, ystyriodd DW bwysigrwydd cael dull hyblyg sy'n addas ar gyfer amrywiaeth o bobl, gan sicrhau y gall awdurdodau lleol fabwysiadau dulliau gwahanol o ran pa mor ganolog yw'r broses gwneud ymyriadau. Gofynnodd hefyd am y ffordd y | **Cam Gweithredu** |

| | | |
|---|---|---|
| | gellir defnyddio canfyddiadau arolwg CCAC/LIC at ddibenion llesiant staff yn ogystal â llesiant myfyrwyr.<br><br>Croesawodd AE sylwadau pawb, a chadarnhaodd y bydd yn darparu gwybodaeth am y ganran o ymatebion a ddaeth o ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd.<br><br>Nododd MfE nad arbenigwyr yw ysgolion, felly mae'n arbennig o bwysig i'w cefnogi wrth iddynt benderfynu pa ymyriadau y dylid eu defnyddio. Mae hefyd yn hollbwysig meddwl mewn ffordd gydgysylltiedig wrth ystyried y mater hwn a materion eraill y mae angen i ysgolion fynd i'r afael â nhw, megis y gwaith o greu cysylltiadau rhwng dysgu proffesiynol ym maes iechyd meddwl a dysgu proffesiynol o ran anghenion plant sy'n agored i niwed sy'n gymwys i gael grantiau datblygu disgyblion rhanbarthol. | **1** |
| **3** | **Dull Ysgol Gyfan Gwent**<br>**– cyflwynwyd gan Dr Liz Gregory a Charlotte Montgomery** | |
| **3.1** | Croesawodd MfE Dr Liz Gregory a Charlotte Montgomery, a gyflwynodd yr hyn a ddysgwyd o'u cynllun peilot Dull Ysgol Gyfan a gynhaliwyd ganddynt yng Ngwent.<br><br>Gwnaeth y drafodaeth dynnu sylw at y ffaith bod ysgolion yn gweithredu fel cymunedau allweddol ar gyfer plant a phobl ifanc, ac felly mae ganddynt botensial unigryw i gefnogi llesiant neu i'w rwystro. Yn benodol, mae'r gwaith o feithrin emosiynau cadarnhaol yn yr holl ryngweithio sy'n digwydd mewn ysgolion yn hanfodol o ran meithrin dysgu a chwilfrydedd. Gwnaethant hefyd drafod ymhellach rai o'r heriau a wynebwyd wrth roi Dull Ysgol Gyfan Gwent ar waith, a phwysigrwydd cydweithio ar draws gwahanol feysydd proffesiynol, yn ogystal â dathlu gydag ysgolion er mwyn meithrin cydberthnasau cadarnhaol, sy'n galluogi eraill i gymryd diddordeb yn y broses a chymryd rhan ynddi.<br><br>Yn dilyn y cyflwyniad, dywedodd MfE ei bod yn galonogol iawn glywed am y cynllun peilot Dull Ysgol Gyfan a gynhaliwyd yng Ngwent, yn benodol y defnydd a wnaed o ymchwiliadau trogylch, a ddefnyddir i hwyluso diwylliant o newid mewn meysydd addysg eraill.<br><br>Nododd SM ei ddiddordeb yn y posibilrwydd o ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o gynllun peilot Gwent i ehangu'r gwaith a chynnal Dull Ysgol Gyfan mwy. Soniodd KJ ei bod wedi cyfarfod â nifer o nyrsys ysgol Gwent, sy'n llawn cyffro ynghylch y Dull Ysgol Gyfan a'r gefnogaeth y maent yn ei chael, sydd wedi rhoi'r hyder iddynt wneud mwy o waith ymarferol megis cynnal clinigau galw heibio.<br><br>Roedd gan MC ddiddordeb penodol yn y ffordd y mae'r gwaith yn cydgysylltu â chonsortia rhanbarthol a Chynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru. Dywedodd DH fod gwrando ar y cyflwyniad yn ysbrydoledig, a chytunodd hefyd fod y cysylltiad rhwng consortia rhanbarthol a'r Dull Ysgol Gyfan yn allweddol o ran rhoi eglurder i ysgolion. Ymatebodd CM gan ddweud eu bod wedi cael cyfarfodydd cadarnhaol â chysylltwyr Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru, a bod trafodaethau yn mynd rhagddynt mewn perthynas â'r ffordd y gall y Dull Ysgol Gyfan a'r Cynlluniau Ysgolion Iach ategu gwaith ei gilydd orau, gan sicrhau na chaiff ysgolion ormod o waith ychwanegol.<br><br>Dywedodd PV fod y gwaith y maent yn ei wneud yn werthfawr iawn, a bod y gwaith o greu lle diogel i feithrin chwilfrydedd yn bwysig. Ni ddylai llesiant fod yn | |

| | | |
|---|---|---|
| | ategol mewn ysgol; yn hytrach, dylai fod yn elfen hanfodol sy'n cael yr un faint o sylw yn ystod oriau addysgu. Gyda'r meddylfryd hwn, mae'n hanfodol cael amser a lle ar gyfer gwaith cydgyrnhyrchu, ac i staff a myfyrwyr gael myfyrio. Datblygodd MfE y pwynt hwn, gan nodi ei bod yn bwysig iawn bod pob ysgol yn cael y pŵer i lunio cwricwlwm sy'n addas ar eu cyfer. | |
| **4** | **Trosolwg System Gyfan o'r rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc – cyflwynwyd gan Deb Austin** | |
| **4.1** | Croesawodd MfHSS y ffaith bod y rhaglen Law yn Llaw yn ehangu, a chadarnhaodd y bydd y rhaglen yn cael cyfle i adrodd i gyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen o hyn ymlaen, er mwyn gwella'r gwaith o gysoni'r dull system gyfan a'r dull ysgol gyfan.<br><br>Cyflwynwyd Deb Austin, a roddodd drosolwg o gynllun y rhaglen Law yn Llaw a'r tair ffrwd waith a fydd yn ganolog iddi.<br><br>Yn dilyn y cyflwyniad, cadarnhaodd SH yr ymchwil sy'n cael ei gwneud gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a bod disgwyl cyflwyno adroddiad ar y gwaith a wnaed ym mis Mawrth.<br><br>Nododd LN fod strwythur newydd y rhaglen Law yn Llaw yn well na'r strwythur blaenorol, ond bod ganddi rai pryderon o hyd o ran darnio. | **Cam Gweithredu 2** |
| **5** | **Unrhyw faterion eraill a dyddiad y cyfarfod nesaf** | |
| **5.1** | Nododd MfE fod dyddiadau'r ddau gyfarfod nesaf wedi'u pennu (29 Mehefin a 9 Tachwedd) a bod negeseuon ynghylch nodau yn y dyddiadur wedi'u hanfon. Cynigiodd gyfle i siarad i SH.<br><br>Gofynnodd SH a fyddai canllawiau fframwaith y Dull Ysgol Gyfan yn cael statws statudol, ac os felly, a fyddent yn cyd-fynd â'r Bil Cwricwlwm ac Asesu. Nododd MfE fod LIC yn dal wrthi'n ystyried a ddylid gwneud y canllawiau'n rhai statudol. Cadarnhaodd os cânt eu gwneud yn rhai statudol, bod nifer o ffyrdd o roi'r statws hwnnw iddynt heb orfod eu cynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol. Er enghraifft, cafodd y canllawiau gwrth-fwlio eu gwneud yn rhai statudol yn ddiweddar heb fod angen deddfwriaeth sylfaenol.<br><br>Nododd MfE mai'r bwriad oedd ystyried y Canllawiau Fframwaith Ysgolion terfynol yn ystod y cyfarfod hwn, cyn yr ymgynghoriad ffurfiol. Fodd bynnag, roedd y ddogfen wrthi'n cael ei diwygio o hyd, a byddai'n cael ei hystyried yn ystod cyfarfod nesaf y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid ar 17 Chwefror. Er na fyddai'n ymarferol trefnu cyfarfod arall o'r grŵp hwn ar fyr rybudd o ystyried ymrwymiadau dyddiadur pawb, cynigiodd y gallai'r swyddogion gyfarfod ag unrhyw aelod o'r grŵp er mwyn trafod y Fframwaith ym mis Chwefror/ar ddechrau mis Mawrth cyn i'r ymgynghoriad ffurfiol ddechrau ym mis Mawrth.<br><br>Bydd y swyddogion yn cylchredeg y fersiwn ddiweddaraf yng nghanol mis Chwefror, a dylai unrhyw aelod sydd am drafod cyn yr ymgynghoriad gysylltu â'r Ysgrifenyddiaeth.<br><br>Dyddiad y cyfarfod nesaf: 29 Mehefin 2020 (11.30-13.00)<br>Lleoliad: Parc Cathays 2 | **Cam Gweithredu 3** |